

CFAINTA1W

Paratoi ar gyfer aseiniadau cyfieithu ar y pryd



Trosolwg

Mae'r uned hon yn ymwneud â pharatoi ar gyfer aseiniadau cyfieithu ar y pryd proffesiynol. Mae hyn yn golygu cadarnhau natur aseiniadau ac ystyried a oes gennych chi'r sgiliau iawn. Mae'n rhaid ichi fedru defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth i baratoi ar gyfer aseiniadau a rhaid ichi gynllunio ar gyfer unrhyw ddefnydd o gyfarpar. Rhaid ichi fod yn gwbl ymwybodol o rôl y cyfieithydd ar y pryd proffesiynol ac o'r egwyddorion parthed arfer proffesiynol.

Cymeradwyir yr uned ar gyfer pobl sy'n meddu ar sgiliau iaith ardderchog mewn dwy neu ragor o ieithoedd ac sy'n awyddus naill ai i ddatblygu neu i achredu'r sgiliau sydd eu hangen i weithio fel cyfieithydd ar y pryd proffesiynol.

CFAINTA1W

Paratoi ar gyfer aseiniadau cyfieithu ar y pryd

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

- P1 eich bod chi'n deall:
 - P1.1 pwnc a phwrpas yr aseiniad;
 - P1.2 lefel yr iaith a'r sgiliau cyfieithu sydd eu hangen;
 - P1.3 y dull o gyfieithu ar y pryd a ddefnyddir: olynol neu ar y pryd/sibrwd
- P2 nad ydych chi'n derbyn unrhyw aseiniad sydd y tu hwnt i'ch gallu
- P3 eich bod chi'n cytuno ar fanylion contract, gan gynnwys lleoliad, cyfarpar, amserlenni, yswiriant a thâl
- P4 os yn briodol, eich bod chi'n gofyn am sesiwn briffio ac am gael gweld unrhyw ddogfennau a gaiff eu defnyddio cyn yr aseiniad
- P5 eich bod chi'n egluro'r egwyddorion parthed arfer proffesiynol os bydd gofynion anfoesol arnoch chi
- P6 eich bod chi'n cynllunio'n addas fel y byddwch chi'n gallu trin:
 - P6.1 y math o aseiniad a pha mor gymhleth yw;
 - P6.2 gofynion sy'n benodol i'r maes;
 - P6.3 gwahaniaethau diwylliannol ac anghenion ieithyddol tebygol;
 - P6.4 unrhyw ofynion arbennig, gan gynnwys yr angen am gyfarpar a ble y byddwch chi a'r defnyddiwr/defnyddwyr yn eistedd/sefyll;
 - P6.5 gofynion a disgwyliadau tebygol eich cleient a defnyddiwr/defnyddwyr
- P7 eich bod chi'n defnyddio ffynonellau perthnasol o wybodaeth i baratoi ar gyfer yr aseiniad
- P8 eich bod chi'n llunio ac yn cynnal rhestr o derminoleg

CFAINTA1W

Paratoi ar gyfer aseiniadau cyfieithu ar y pryd

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

- K1 yr ieithoedd rydych chi'n cyfieithu ynddynt, gyda'r gallu i weithredu ar lefel 5 ar gyfer eich mamiaith; a lefel 4 ar gyfer eich iaith arall/ieithoedd eraill (gweler unedau gwrando/derbyn a siarad/arwyddo y safonau iaith cenedlaethol ar gyfer gofynion perfformiad a gwybodaeth)
- K2 y broses o gyfieithu ar y pryd o'r naill iaith i'r llall a sut i oresgyn effaith y gwahaniaeth rhwng ieithoedd
- K3 y diwylliannau'r ieithoedd rydych chi'n cyfieithu ynddynt a'u harferion ar gyfer cyfathrebu, a goblygiadau'r agweddau hyn ar gyfer cynllunio'r aseiniad cyfieithu ar y pryd
- K4 y dulliau cyfieithu ar y pryd: olynol ac ar y pryd/sibrwd
- K5 y technegau i ragweld y math o aseiniad a pha mor anodd yw, a gofynion y cleient a'r defnyddwyr
- K6 y dechnegau i sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng defnyddwyr iaith wreiddiol a tharged
- K7 rôl y cyfieithydd ar y pryd a'r egwyddorion parthed ymddygiad proffesiynol, yn enwedig yr angen:
 - K7.1 i ddatgelu unrhyw wybodaeth, gan gynnwys gwrthdaro buddiannau a allai olygu nad ydych chi'n addas ar gyfer aseiniad;
 - K7.2 i fod yn ddiuedd, cynnal uniondeb a phroffesiynoldeb;
 - K7.3 i drin pob gwybodaeth a dderbyniwch yn rhinwedd eich dyletswyddau yn gyfrinachol, oni ofynnir ichi ei datgelu yn unol â'r gyfraith;
 - K7.4 i barchu moeseg ac arferion gwaith galwedigaethau eraill.
- K8 sut i drafod a chytuno ar gontract, gan gynnwys amserlenni, taliad ac indemniad proffesiynol yn ogystal ag yswiriant trydydd person
- K9 technegau i ymchwilio a chadarnhau terminoleg gyffredinol a phenodol i faes
- K10 technegau i lunio a chynnal rhestrau o derminoleg.
- K11 ffynonellau gwybodaeth gyffredinol ac arbenigol i gynorthwyo gydag aseiniadau, e.e. y rhyngrwyd, taflenni, fideo, rhestrau a dyddiaduron technegol

CFAINTA1W

Paratoi ar gyfer aseiniadau cyfieithu ar y pryd

Gwybodaeth Ychwanegol

Cysylltiadau â SGC eraill

Cysylltir yr uned hon â nifer o unedau o fewn y gyfres, yn enwedig:

Uned B1	Cyfieithu unffordd fel cyfieithydd ar y pryd proffesiynol
Uned C1	Cyfieithu dwyffordd fel cyfieithydd ar y pryd proffesiynol
Uned D1	Datblygu eich perfformiad fel cyfieithydd ar y pryd
Uned E1	Cefnogi cyfieithu ar y pryd trwy gyfieithiadau golwg gyntaf o ddogfennau ysgrifenedig cyffredin
Uned F1	Cefnogi cyfieithu ar y pryd trwy gyfieithiadau ysgrifenedig drafft o ddogfennau ysgrifenedig cyffredin
Uned A2	Ehangu sgiliau sy'n bodoli'n barod i baratoi ar gyfer aseiniadau cyfieithu ar y pryd

Cysylltiadau allanol

Er mwyn gweld trosolwg o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol mewn Cyfieithu ar y Pryd, egwyddorion parthed arfer proffesiynol a rhestr o derminoleg arbenigol, ewch at

[www.cilt.org.uk/home/standards and qualifications/uk occupational standards /interpreting.aspx](http://www.cilt.org.uk/home/standards_and_qualifications/uk_occupational_standards/interpreting.aspx).

CFAINTA1W

Paratoi ar gyfer aseiniadau cyfieithu ar y pryd

Datblygwyd gan	CFA Business Skills @ Work
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	Tachwedd 2009
Dyddiad adolygu dangosol	Tachwedd 2011
Dilysrwydd	Cyfredol
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	CILT
RCU gwreiddiol	O28NINTA1
Galwedigaethau perthnasol	Interpreter, Sign Language Interpreter, Public Service Interpreter, Conference Interpreter
Cyfes/Set	Cyfieithu ar y Pryd;
Geiriau Allweddol	Cyfieithu